OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 733 (Cy.65) (C.31)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007

*Wedi'i wneud - - 6 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 17(3) o Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 —

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.** 2 Ebrill 2007 yw'r diwrnod a benodwyd i adran 13 o Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 ddod i rym i'r graddau y mae'n ymwneud â mabwysiadau a darpar fabwysiadau y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru godi ffi o dan adran 91A o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 mewn cysylltiad â hwy.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**1**).

*D. Elis-Thomas*
6 Mawrth 2007 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 2 Ebrill 2007 adran 13 o Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006(**2**), i'r graddau y mae'n ymwneud â mabwysiadau a darpar fabwysiadau y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) godi ffi mewn cysylltiad â hwy ar fabwysiadwyr a darpar fabwysiadwyr o dan adran 91A o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**3**). Mabwysiadau a darpar fabwysiadau yw'r rhain y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â hwy fel Awdurdod Canolog o dan Gonfensiwn yr Hâg ar Amddiffyn Plant a Chydweithrediad mewn cysylltiad â Mabwysiadu Rhwng Gwledydd 1993.

(**2**) 2006 p.20.
(**3**) 2002 p.38.